

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465
(DOWLAIS, MERTHYR TUDFUL I FRYN-
MAWR, BLAENAU GWENT A GLANBAIDEN
I'R FENNI, SIR FYNWY) (CYFYNGIADAU
CYFLYMDER DROS DRO A DIM
GODDIWEDDYD) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, rhwng Dowlais, Merthyr Tudful a'r Fenni, Sir Fynwy.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 50 mya, 40 mya neu 10 mya ar y darnau hynny o gefnffordd yr A465 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Dim ond yn ystod gwaith confoi y disgwylir i'r terfyn cyflymder o 10 mya fod yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 4 Medi 2023. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau a'r gwaharddiad dros dro yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) rhwng 4 a 15 Medi 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Disgwylir i'r gwaith fynd rhagddo ar 2 gam:

- Dowlais i Fryn-mawr rhwng 4 a 8 Medi 2023
- Glanbaiden i Gylchfan Hardwick, y Fenni rhwng 11 a 15 Medi 2023.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiadau yn cael eu harddangos yn rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i amseroedd a dyddiadau unrhyw waith sydd wedi ei ailamserlennu.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A465 TRUNK ROAD (DOWLAIS,
MERTHYR TYDFIL TO BRYNMAWR,
BLAENAU GWENT & GLANBAIDEN TO
ABERGAVENNY, MONMOUTHSHIRE)
(TEMPORARY SPEED RESTRICTIONS & NO
OVERTAKING) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Dowlais, Merthyr Tydfil and Abergavenny, Monmouthshire.

The effect of the Order is to impose a temporary 50 mph, 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A465 trunk road described in the Schedule to this Notice. The 10 mph speed limit is expected to apply during convoy working and no overtaking will be permitted during these times.

The Order comes into force on 4 September 2023. The temporary restrictions and prohibition are expected to operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) from 4 to 15 September 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The works are expected to take place in 2 phases:

- Dowlais to Brynmawr from 4 – 8 September 2023
- Glanbaiden to Hardwick Roundabout, Abergavenny from 11 – 15 September 2023.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notices will be displayed advising of any changes to times and dates of any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 750 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Dowlais i bwynt 750 o fetrau i'r dwyrain o Bont Jack Williams, Bryn-mawr, gan gynnwys y darnau hynny o'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a'r gorllewin yn Nowlais, Rhymni, Tredegar, Gorllewin Glynebwy, Ystad Ddiwydiannol Rasa, Dwyrain Glynebwy a Chyfnnewidfeydd Bryn-mawr.

Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 750 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Glanbaiden i bwynt 42 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cylchfan Hardwick, y Fenni, gan gynnwys y darnau hynny o'r ffyrdd ymuno tua'r dwyrain a'r gorllewin yng Nghyfnnewidfeydd Glanbaiden a Llan-ffwyst.

SCHEDULE

The length of the trunk road that extends from a point 750 metres west of the centre-point of Dowlais Interchange to a point 750 metres east of the Jack Williams Bridge, Brynmawr, including the lengths of the eastbound and westbound entry slip roads at Dowlais, Rhymney, Tredegar, Ebbw Vale West, Rassau Industrial Estate, Ebbw Vale East and Brynmawr Interchanges.

The length of the trunk road that extends from a point 750 metres west of the centre-point of Glanbaiden Interchange to a point 42 metres west of the centre-point of Hardwick Roundabout, Abergavenny, including the lengths of the eastbound and westbound entry slip roads at Glanbaiden and Llanfoist Interchanges.